**Rhif yr Achos: 1600397/2016**

# TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH

**Hawlydd: Miss EC Thompson**

**Atebydd: Cyngor Bro Morgannwg**

# DYFARNIAD

Gwrthodir cais yr hawlydd, dyddiedig 4 Chwefror 2019, i ailystyried y dyfarniad dyddiedig 30 Ionawr 2019.

# RHESYMAU

1. Mae cais yr hawlydd i ailystyried y penderfyniad dyddiedig 30 Ionawr 2019, a anfonwyd at y partïon ar y dyddiad hwnnw, wedi cael ei ystyried gan y Barnwr Cyflogaeth Williams yn unol â Rheol 72 Rheolau Trefniadaeth y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth.

2. Mae'r cais i ailystyried yn cael ei gynnwys yn:

   i. Llythyr yr hawlydd, dyddiedig 4 Chwefror 2019

   ii. Gohebiaeth bellach gan yr hawlydd, dyddiedig

      12 Chwefror 2019
      15 Chwefror 2019
      22 Chwefror 2019
      4 Mawrth 2019
      5 Mawrth 2019;

   iii. Dogfennaeth bellach a gyflwynwyd gan yr hawlydd, dyddiedig

      12 Mawrth 2019
      14 Mawrth 2019
      18 Mawrth 2019;

3. Mae’r barnwr cyflogaeth hefyd wedi darllen llythyr yr hawlydd, dyddiedig 19 Mawrth 2019, sydd wedi’i gyfeirio at y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth ac wedi cael ei gopïo i’r Tribiwnlys Cyflogaeth.

4. Mae’r barnwr cyflogaeth hefyd wedi ystyried sylwadau’r atebydd ar gais yr hawlydd, a oedd wedi’u cynnwys yn ei lythyr, dyddiedig 13 Mawrth 2019.

5. Mae cyflwyniadau helaeth yr hawlydd yn cynnwys honiadau niferus o dueddiadau a rhagfarnau, rheithfarn a gwallau cyfreithiol ar ran y Tribiwnlys. Mae’r hawlydd hefyd yn datgan tro ar ôl tro ni ddylai’r Barnwr Cyflogaeth Williams ystyried y cais hwn.

6. Mae Rheol 72 yn darparu

   (3) lle bo’n ymarferol, bydd yr ystyriaeth dan baragraff (1) yn cael ei wneud gan y barnwr cyflogaeth a… gadeiriodd y tribiwnlys llawn a wnaeth [y penderfyniad gwreiddiol] ...

7. Penderfynodd y Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol ei fod yn ymarferol i’r Barnwr Rhanbarth Williams ystyried y cais hwn.

8. Yn ôl barn y Barnwr Cyflogaeth Williams, roedd cyflwyniadau’r hawlydd yn codi pwyntiau apelio a fydd mwy na thebyg yn cael eu dilyn gan yr hawlydd gerbron y Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth, yn hytrach na materion a all gael eu hystyried yn briodol gan dribiwnlys sy’n ailystyried dyfarniad ei hun.

9. Yn unol â hynny, mae’r barnwr cyflogaeth yn ystyried nid oes rhagolwg tebygol y bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei amrywio neu ei ddiddymu. Felly, mae’r cais hwn yn cael ei wrthod.

Barnwr Cyflogaeth Williams
Dyddiedig: 23 Ebrill 2019

DYFARNIAD WEDI’I ANFON AT Y PARTÏON AR

………26 Ebrill 2019……………….

AR RAN YSGRIFENNYDD Y TRIBIWNLYSOEDD CYFLOGAETH